**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Rhagfyr 2011**

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Adroddiad gan y Cynghorydd Sharon Frobisher, Cadeirydd yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau ynglŷn â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd eu swyddi rhwng 8fed Hydref a 15fed Rhagfyr 2011.

## Gwybodaeth

2 Rhestrir isod y digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychwyd gan y Cadeirydd (C) a/neu'r Is-Gadeirydd (IG):

| | |
|---|---|
| 10fed Hydref | Cyfarfod gyda Ieuan Wyn Jones AC (C ac IG) |
| 12fed Hydref | Hyfforddiant Cyfryngau yn y Pencadlys (C ac IG) |
| 13eg Hydref | Agor Tendrau (C) |
| 14eg Hydref | Cyngor Cyswllt Cymru: Cyfarfod blynyddol (C) |
| 17eg Hydref | Cyfarfod ATA yng Nghaernarfon ac yna cyfweliadau gyda'r cyfryngau (C ac IG) |
| 2il Tachwedd | Cynhadledd "Cymru'n Rheoli" (C) |
| 11eg Tachwedd | Cyfarfod Bwrdd Arweiniol Rhanbarthol (C) |
| 15fed Tachwedd | Cyfarfod gyda'r Undebau cyn y cyfarfod Panel Gweithredol (C ac IG) |
| 18fed Tachwedd | Seremoni Cyflawniad y Ffenics, Yr Wyddgrug (C) |
| 21ain Tachwedd | Cyfarfod Panel Gweithredol (C ac IG) |
| 29ain Tachwedd | Cyfarfod Panel CLlLC gyda'r Gwasanaethau Tân (IG) |
| 1af Rhagfyr | Cyfweliad gyda'r Tîm Asesu Cyfoedion (IG) |
| 12fed Rhagfyr | Gwasanaeth Carolau (IG) |

3 Cynhaliwyd y Cynhadledd "Cymru'n Rheoli" yn yr OpTic yn Llanelwy er mwyn arddangos y system cyd-gefnogol sydd nawr ar waith rhwng y tair ystafell reoli yng Nghymru. Yn dilyn nawdd gan Lywodraeth Cymru, mae'r prosiect cydnerth wedi cynnwys diweddaru'r holl systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu a ddefnyddir wrth brosesu galwadau 999 yn nhair ystafell reoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub a dod a hwy at ei gilydd. Roedd dros 100 o gynrychiolwyr yn bresennol i ddysgu mwy am y system sydd ar y blaen o safbwynt gwaith ar y cyd yn y DU. Roedd yr ymateb gan y cynrychiolwyr yn wych a dywedodd nifer fod hwn wedi bod yn gyfle delfrydol i ddysgu a rhannu profiadau.

4 Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Swyddog Tân, Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar $13^{eg}$ Hydref, $7^{fed}$ Tachwedd, $15^{fed}$ Tachwedd, $5^{ed}$ Rhagfyr a $15^{fed}$ Rhagfyr.

**Argymhelliad**

5 Argymhellir fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.